

A Refuge in Peace and War

Yn ystod haf 2002 cyhoeddodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru gyfrol sylweddol a luniwyd gan un o'i chyn-lyfrgellwyr y Dr David Jenkins, gwaith sydd yn croniclo a dadansoddi hanes sefydliad y Llyfrgell a'i datblygiad hyd at 1952.

Ac yntau'n frodor o Flaenclydach yn y Rhondda, roedd yr awdur yn aelod o staff y Llyfrgell o 1939 hyd at ei ymddeoliad ddiwedd 1979. Yn wreiddiol roedd yn aelod o staff Adran y Llawysgrifau a'r Cofysgrifau, ond yn ddiweddarach ymunodd â staff Adran y Llyfrau Printiedig lle gwasanaethodd fel Ceidwad rhwng 1957 a 1969. Rhwng 1969 a 1979 David Jenkins oedd y pumed Llyfrgellydd Cenedlaethol. Yn ystod ei ymddeoliad hir rhoddodd gryn dipyn o'i amser i ymchwilio ar gyfer y gyfrol nodedig hon. Yn drist iawn bu farw yn ystod mis Mawrth 2002 dim ond tri mis cyn ymddangosiad y gyfrol.



Dr. David Jenkins (1912–2002)

Mae'r astudiaeth dreiddgar hon yn edrych yn fanwl ar yr ymgyrchoedd i sefydlu llyfrgell genedlaethol yng Nghymru yn ystod y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg cyn olrhain y mudiad llwyddiannus a lansiwyd adeg eisteddfod genedlaethol yr Wyddgrug 1873. Mae'n canolbwyntio ar y penderfyniad dadleuol i leoli'r llyfrgell yn Aberystwyth yn hytrach nag yng Nghaerdydd. Roedd dylanwad y meddyg brenhinol Syr John Williams, un o brif gymwynaswyr y Llyfrgell, yn allweddol yn y penderfyniad hwn. Yn ddiweddarach, mae'r gyfrol yn croniclo datblygiad y Llyfrgell yn ystod teyrnasiad y ddau Lyfrgellydd cyntaf Syr John Ballinger (1909–30) a Syr William Llewelyn Davies (1930–52).

Mae'r Dr Jenkins wedi gwneud defnydd helaeth o archifau mewnol sylweddol y Llyfrgell ac wedi astudio rhychwant eang o ffynonellau printiedig a darluniadol. Defnyddiodd hefyd bapurau nifer o wleidyddion a ffigurau cyhoeddus yng Nghymru, yn eu plith J. H. Davies, Cwrt Mawr, T. E. Ellis, D. Lloyd George, J. Herbert Lewis a Syr John Williams.

Adeg cyhoeddi'r gyfrol ym mis Mehefin, fe'i croesawyd gan Mr Andrew Green, y Llyfrgellydd presennol, fel 'testament nid yn unig i ysgolheictod David Jenkins ond hefyd i'w ddyfalbarhad yn wyneb llawer o boen personol er mwyn cwblhau'r llyfr pwysig hwn'. Byddai'r astudiaeth, meddai, 'yn hanfodol nid yn unig i rai sydd â diddordeb yn hanes y Llyfrgell Genedlaethol ond hefyd i unrhyw un sydd â diddordeb yn hanes cyfoes Cymru a datblygiad gwleidyddol a diwylliannol y Gymru gyfoes'.

Mae'r gyfrol *A Refuge in Peace and War* ar gael o'r Llyfrgell ar hyn o bryd am £29.95. Cludiant a phacio yn ychwanegol.

Darlithiau'r Archif

Mae Mr Ron Davies, AC Llafur dros etholaeth Caerffili a chyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn garedig iawn wedi cytuno i draddodi 17fed darlith flynyddol yr AWG ar 7 Tachwedd 2003. Fe fydd yn traethu ar ryw agwedd ar ddatganoli diweddar.

Yn ei gyfarfod diweddar, cytunodd aelodau'r pwyllgor ymgynghorol i wahodd Yr Athro Emeritus Deirdre Beddoe i roi'r ddarlith flynyddol yn Nhachwedd 2004 a Mr Cynog Dafis i ddarlithio yn 2005. Mae'r ddau ohonynt yn aelodau o'r pwyllgor ers llawer blwyddyn.

Yr Archif Wleidyddol Gymreig

Sefydlwyd yr Archif Wleidyddol Gymreig yn 1983 i gydlynw'r gwaith o gasglu tystiolaeth ddogfennol o bob math am wleidyddiaeth Cymru. Cesglir cofysgrifau a phapurau pleidiau gwleidyddol, gwleidyddion, mudiadau lled-wleidyddol, ymgyrchoedd a charfanau pwyso; taflenni, pamffledi, ac effemera printiedig eraill; posteri a ffotograffau; a thâpiau rhaglenni radio a theledu.

Aelodau o'r pwyllgor ymgyngorol:

Mr Andrew Green (Llyfrgellydd), Dr Denis Balsom, Mr Ian Barton, Yr Athro Emeritws Deirdre Beddoe, Miss Beata Brookes, Mr Alun Burge, Mr Cynog Dafis AC, Mr Darron Dupré, Mr Aled Eirug, Mr Tom Ellis, Mr Rhys Evans, Mr Gwyn Griffiths, Mr Adam Higgitt, Yr Athro Deian Hopkin, Yr Athro Aled G Jones, Mr D Elwyn Jones, Mr D L Jones, Dr Richard Wyn Jones, Mr David Melding AC, Yr Arglwydd Morgan o Aberdyfi, Mrs Julie Morgan AS, Yr Athro Emeritws D Hywel E Roberts, Yr Athro Duncan Tanner, Dr Guto Thomas a phedwar aelod o staff LIGC.

Am fwy o wybodaeth cysyllter â Dr. J. Graham Jones
Yr Archif Wleidyddol Gymreig
Llyfrgell Genedlaethol Cymru,
Aberystwyth, Ceredigion, Cymru,
SY23 3BU
Tel: 01970 632866
Fax: 01970 632883
ggj@llgc.org.uk
www.llgc.org.uk/lc/awg_c_awg.htm

Aelodau newydd y Pwyllgor Ymgyngorol

Yn ei bedwerydd cyfarfod ar ddeg ar hugain a gynhaliwyd yn y Llyfrgell ar 1 Tachwedd 2002, penderfynodd yr aelodau yn unfrydol i wahodd y canlynol i ymuno â'r pwyllgor ymgyngorol:

Mr Alun Burge

Mr Rhys Evans

Dr Richard Wyn Jones

Mr David Melding AC

Yr Athro Duncan Tanner

Dr Guto Thomas

Rydyn yn llawenhau'n fawr i bob un o'r chwech dderbyn y gwahoddiad a byddant yn mynychu eu cyfarfod cyntaf yn Nhachwedd 2003. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at y cyfraniad cyfoethog y gwnânt yn ddi-os tuag at ddatblygiad yr Archif.

DARLITH FLYNYDDOL 2002

Cynhaliwyd 16fed darlith flynyddol yr Archif Wleidyddol Gymreig yn Gymraeg yn yr Hen Goleg, Aberystwyth, ar nos Wener, 1 Tachwedd 2002. Y darlithydd y tro hwn oedd Yr Athro R. Merfyn Jones o Ysgol Hanes a Hanes Cymru, Prifysgol Cymru, Bangor. Ei thema oedd

'Gwleidyddiaeth Addysg Gydol-oes yng Nghymru'.

Mae Merfyn Jones yn frodor o Lanfrothen, Sir Feirionnydd a derbyniodd ei addysg fore yn Ysgol Ardudwy, Harlech. Graddiodd o Brifysgolion Sussex a Warwick. Mae'n adnabyddus ledled Cymru erbyn hyn fel darlithydd, darlledwr ac awdur cyson. Ef yw awdur yr astudiaeth wir arloesol *The North Wales Quarrymen* (1981), a'r gyfrol boblogaidd *Cymru 2000: Cymru yn yr Ugeinfed Ganrif* (2000), gwaith a gyhoeddwyd yn sgil y gyfres deledu uchel ei bri o'r un enw a baratowyd ac a gyflwynwyd ganddo. Yn ddiweddar roedd yn gyfrifol am raglen ddogfen ar y teledu yn ymdrin â datblygiad Sianel S4C ers ei chychwyn ym 1982. Merfyn Jones hefyd yw awdur a chyflwynydd cyfres ar hanes Cymdeithas yr Iaith Gymraeg sydd yn cael ei darlledu ar S4C ar hyn o bryd.

Gan gyfuno'n ddestlus ei ymchwil academaidd helaeth yn y maes a'i brofiad ymarferol fel darlithydd ac athro, rhoddodd Merfyn Jones ddarlith ddifyr, ddiddorol a phryfoclyd. Mae'n bosibl y gwelir testun ei ddarlith, ynghyd â chyfieithiad i'r Saesneg, wedi ei chyhoeddi ar dudalennau We'r Llyfrgell ac mewn rhifyn o *Gylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* yn ystod y misoedd nesaf.



Yr Athro R. Merfyn Jones yn traddodi'r ddarlith flynyddol

Beth oedd yng ngarej Bert?: Archif y Blaid Gomiwnyddol yng Nghymru

Pan sefydlwyd yr AWG nôl yng ngwanwyn 1983, un nôd bwysig o'r cychwyn cyntaf oedd gwarchod archifau'r Blaid Gomiwnyddol yng Nghymru. Erbyn heddiw gwiredwyd y freuddwyd hon. Derbyniwyd papurau'r diweddar Bert Pearce mewn pump grŵp rhwng 1996 a 2002. Ef oedd ysgrifennydd llawn amser Rhanbarth Cymru o'r Blaid Gomiwnyddol rhwng 1960 a 1984. Cedwid y papurau yn wreiddiol yn ei gartref a'i garej ac maent yn adlewyrchu ei waith dros y Blaid Gomiwnyddol a'r rhan amlwg a chwaraeodd mewn nifer fawr o ymgyrchoedd. Mae'r gwaith o restru'r archif bwysig hon bellach bron ar ben.

Ganed Herbert Pearce yn Noc Penfro ym 1919. Roedd ei rieni yn amlwg o fewn y Blaid Lafur leol ac yn frwd eu cefnogaeth i'r mudiad heddych. Roedd yntau hefyd yn aelod o'r Blaid Lafur hyd nes iddo ymaelodi â'r Blaid Gomiwnyddol ym 1938. Ym 1946 priododd â Margaret Forbister, merch o Rymni.



Bert Pearce yn gwerthu'r Daily Worker yn y 1950au

Roedd Bert Pearce eisoes wedi symud i Birmingham ym 1938 a gwasanaethodd fel ysgrifennydd rhanbarth y Blaid Gomiwnyddol ym Mirmingham, Wolverhampton a Sheffield cyn symud i Gaerdydd ym 1960. Yn ystod ei yrfa gynnar bu'n flaenllaw yn Streic Rhent Birmingham 1939 ac yn yr ymgyrchoedd yn erbyn hiliaeth a diweithdra o fewn y diwydiant ceir ym 1952-53.

Safodd fel ymgeisydd ar ran y Blaid Gomiwnyddol yn etholaeth Perry Barr, Birmingham, ym 1955 a 1959, Dwyrain Abertawe yn is-etholiad 1963 a Chastell Nedd ym 1970. Bu hefyd yn ymgeisydd mewn nifer o etholiadau lleol ym Mirmingham a Chaerdydd. Ac yntau'n frwd ei gefnogaeth i'r mudiad undebaeth lafur, ymgyrchodd o blaid sefydlu TUC Cymru a brwydrodd yn ddewr yn erbyn diweithdra a chau'r pyllau glo a'r ffatrioedd. Roedd hefyd yn eiddgar o blaid mabwysiadu cynllunio economaidd Sosialaidd ar gyfer Cymru.

Bu Bert Pearce yn ymgyrchu'n galed dros sicrhau pleidlais 'Ie' yn ymgyrch datganoli 1979, ac ym 1987 roedd yn un o sylfaenwyr yr Ymgyrch dros Gynulliad Cymreig, carfan a arweiniodd at sefydlu Ymgyrch Senedd i Gymru. Roedd hefyd yn flaenllaw o fewn Gorymdaith y Bobl ar gyfer Swyddi yng Nghymru, 1981-83, a gwasanaethodd fel trysorydd y Chwith Ddemocrataidd yng Nghymru o 1992 ymlaen.

Adlewyrchir llawer o'r gweithgareddau hyn yn y papurau o fewn yr archif sydd yn cynnwys cofnodion Plaid Gomiwnyddol Prydain Fawr, 1949-91, Rhanbarth Cymru'r Blaid Gomiwnyddol, 1938-91, a'r Chwith Ddemocrataidd, 1991-99. Mae ffeiliau eraill o fewn y casgliad yn ymdrin â datganoli yng Nghymru a'r Alban, 1936-98, anghydfod diwydiannol a'r undebau llafur, 1892-1998, y mudiad heddych, 1960-92, Gorymdaith y Bobl ar gyfer Swyddi yng Nghymru, 1981-83, a'r ymgyrch yn erbyn Treth y Pen, 1988-90.

Mae papurau Bert Pearce hefyd yn cynnwys nifer fawr o eitemau printiedig, ffotograffau, taflenni etholiadol a manifestos. Trosglwyddwyd dyblygion o ddeunydd printiedig i ofal Llyfrgell Glowyr De Cymru, Abertawe. Unwaith bydd y gwaith rhestru ar ben, bydd y papurau ar agor ar gyfer ymchwilyr.

Nia Mai Williams

Cofiant i Gwynfor

Cafodd Mr Rhys Evans, gohebydd gwleidyddol BBC Cymru, ei gomisiynu gan y Dr Gwynfor Evans a'i deulu i lunio cofiant llawn o fywyd y gwleidydd. Mae Rhys, sy'n frodor o Aberystwyth ac wedi graddio mewn hanes o Brifysgol Rhydychen, eisoes wedi gwneud dechreuad ar ei raglen ymchwil sylweddol. Fe fyddai'n gwerthfawrogi'n fawr unrhyw gymorth gan unigolion sydd yn meddu ar bapurau a dogfennau perthnasol neu atgofion. Gellir cysylltu gydag ef yn 22 Meadow Street, Pontcanna, Caerdydd, CF11 9PY (Rhif ffôn = (029 20) 914938).

Derbyniadau diweddar

Cofnodion Sefydliad Materion Cymreig

Derbyniwyd grŵp sylweddol o gofnodion y Sefydliad Materion Cymreig, 1982–2001. Ceir yn eu plith gofnodion gweinyddol a phapurau'n adlewyrchu'r rhychwant eang o weithgareddau a'r prosiectau ymchwil a noddwyd gan y Sefydliad. Mae rhai'n ymdrin â swyddogaeth ymgynghorol y Sefydliad adeg creu'r Cynulliad Cymreig rhwng 1997 a 1999. Mae eraill yn ymwneud â phrosiect uchelgeisiol 2010, trefnu Fforwm Tyddewi a chyhoeddi'r Papurau Gregynog adnabyddus. Disgwylir cofnodion pellach oddi wrth y Sefydliad yn y dyfodol agos.



Dr Roderic Bowen yn 1950

Papurau Dr Roderic Bowen

Drwy garedigrwydd Miss Joan Cooper, Llysfaen, Caerdydd, derbyniwyd grŵp bychan o bapurau gwleidyddol Dr Roderic Bowen (1913–2001). Roedd Dr Bowen yn cynrychioli Ceredigion, ei sir enedigol, yn y senedd fel Rhyddfrydwr rhwng 1945 a 1966. Roedd hefyd yn gyfreithiwr ac yn ffigwr cyhoeddus blaenllaw. Mae'r papurau'n cynnwys llythyrau, torion o'r wasg, anerchiadau etholiadol, manion gwleidyddol,

dyddiaduron poced a phapurau'n ymdrin ag Ymchwiliad, 1972, i Arwyddion Ffyrdd Dwyieithog yng Nghymru.

Papurau'r Cynghorydd Cecilia Barton

Lluniwyd rhestr o'r grwpiau amrywiol o bapurau a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Cecilia Barton, Llanbed, rhwng 1988 a 2002. Ceir yn eu mysgr llyfr cofnodion, 1952–87, Cymdeithas Ryddfrydol Llanbed a'r Cyffiniau; cofnodion, 1983–88, Pwyllgor y Gyngheir rhwng y Democratiaid Cymdeithasol a'r Blaid Ryddfrydol yng Nghymru; ynghyd â phapurau, 1987–96, Cymdeithas Democratiaid Rhyddfrydol Ceredigion. Ceir ymhlith daliadau'r AWG rhai cofnodion pellach yn ymwneud â'r Gyngheir mewn rhannau eraill o Gymru.

Papurau'r Arglwydd Cledwyn o Benrhos

Mae'r Fonesig Cledwyn wedi cyflwyno'r grwpiau olaf o bapurau'r Arglwydd Cledwyn o Benrhos (1916–2000), rhai yn deillio o'i gartref yn Sir Fôn ac eraill o'i swyddfa yn Llundain. Ceir yn eu plith ffleiliau diddorol o bapurau a gohebiaeth yn dyddio'n bennaf o flynyddoedd olaf yr Arglwydd Cledwyn. Yn ddiweddar lluniwyd rhestr gyfansawdd o holl bapurau Arglwydd Cledwyn. Bellach rhaid sicrhau caniatâd ysgrifenedig y Fonesig Cledwyn cyn cael gweld y papurau.

Abertawe yn dweud 'Ie'

Rhoddodd Mr Leigh Richards, Abertawe, grŵp bychan o bapurau'n ymdrin ag ymgyrch 'Ie dros Gymru' yn Abertawe yn ystod pleidlais 1997 ar ddatganoli. Abertawe oedd yr unig ddinas yng Nghymru i bleidleisio 'Ie' yn y pŵl tyngedfennol. Byddai'r AWG yn croesawu'r cyfle i dderbyn papurau'n deillio o'r ddwy garfan yn ystod yr ymgyrch.

Gwynfor at Islwyn

Fel y gellid disgwyl, mae mwyafrif papurau'r Dr Islwyn Ffowc Elis, a ddaeth i'r Llyfrgell yn ddiweddar, yn bennaf o ddiddordeb llenyddol. Ond maent hefyd



Gwynfor Evans yn 1966

yn cynnwys dros 100 o lythyrau rhyfeddol o ddiddorol oddi wrth Dr Gwynfor Evans, llywydd Plaid Cymru, yn bennaf yn ystod y chwedegau, lle rhydd ei farn heb flewyn ar dafod ar faterion llosg y dydd.

Ymhlith derbyniadau diweddar eraill sy'n cynnwys deunydd pwysig yn ymwneud â Dr Evans mae grwpiau bychain o bapurau'r diweddar **Mr E. Chris Rees**, is-lywydd Plaid Cymru ar un adeg (NLW ex 2189 erbyn hyn) a **Mr D. Cyril Jones**, asiant etholaethol Dr Evans am nifer o flynyddoedd (NLW ex 2190).

Pamffledi Rhyddfrydol

Mae Llyfrgell Gyhoeddus Casnewydd wedi cyflwyno i LIGC set gyflawn o'r gyfres nodedig o 'Bamffledi a Thafleini' a gynhyrchwyd gan Adran Gyhoeddi'r Blaid Ryddfrydol rhwng 1904 a 1929.

Ar y funud olaf ...

Ymhlith derbyniadau diweddar iawn mae papurau'r Pwyllgor Cymreig yn erbyn Hiliaeth a grŵp sylweddol ac amrywiol o gofnodion y mudiad heddwach dylanwadol Cymod. Cyhoeddir manylion llawnach amdanynt mewn rhifyn arall o'r *Cylchlythyr*.

Rydym yn argymhell y dylid gwneud ymholiadau ynglŷn â thelerau derbyn y papurau cyn ymweld â'r Llyfrgell.

Ceir gwaharddiad ar weld neu atgynhyrchu nifer o gasgliadau diweddar yr AWG.